# Diwygio darpariaethau gwybodaeth am alergenau mewn deddfwriaeth gwybodaeth am fwyd ddomestig ar gyfer bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol

Statws: Wedi dod i ben
Dyddiad lansio: 25 Ionawr 2019
Dyddiad cau: 29 Mawrth 2019

## Yngl?n â'r ymgynghoriad hwn

Bydd yr ymgynghoriad hwn o ddiddordeb i'r canlynol:

- defnyddwyr ag alergedd bwyd, anoddefiad bwyd a chlefyd seliag
- grwpiau cleifion
- sefydliadau diwydiant
- awdurdodau gorfodi

### Pwnc yr ymgynghoriad

Mae'r ymgynghoriad hwn yn rhoi pedwar dewis polisi i wella darpariaeth yr wybodaeth am alergenau i ddefnyddwyr ar fwyd sy'n cael ei becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol.

### Diben yr Ymgynghoriad

Rhoi cyfle i bawb sydd â diddordeb roi sylwadau ac adborth ar y newidiadau arfaethedig i Reoliadau Gwybodaeth am Fwyd ddomestig 2014 (FIR) (Cymru) a rheoliadau FIR cyfochrog yng Ngogledd Iwerddon, yr Alban a Lloegr. Mae'r rhain yn ymwneud â gwybodaeth am alergenau ar gyfer bwyd sy'n cael ei becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol i'r defnyddiwr.

### ASB yn Esbonio

Mae 'bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol' yn cyfeirio at fwyd sydd wedi ei becynnu ar yr un safle y caiff ei werthu, er enghraifft brechdan wedi'i phecynnu neu salad a wnaed gan staff yn gynharach yn y dydd a'i roi ar silff i'w brynu. Ar hyn o bryd, nid oes rhaid i'r bwyd yma gario labeli a gwybodaeth am alergenau, gan y disgwylir i'r cwsmer siarad â'r person a baratôdd neu a becynnodd y cynnyrch am yr wybodaeth hon.

## Pecyn ymgynghori

Darllenwch y pecyn ymgynghori a chael gwybod sut i ymateb.

## Cyhoeddi crynodeb o’r ymatebion

O fewn tri mis ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben, byddwn yn anelu at gyhoeddi crynodeb o'r ymatebion a chynnwys dolen iddo ar y dudalen hon. Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am sut yr ydym yn trin data a ddarperir mewn ymateb i ymgynghoriadau yn ein hysbysiad preifatrwydd am ymgynghoriadau.

## Mwy o wybodaeth

Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i baratoi yn unol ag egwyddorion ymgynghori llywodraeth y DU.. Os oes Asesiad Effaith wedi'i lunio, bydd wedi'i gynnwys yn y dogfennau ymgynghori. Os na ddarparwyd Asesiad Effaith, nodir y rheswm dros hynny y ddogfen ymgynghori.